OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 256 (Cy. 34)

# IECHYD Y CYHOEDD

# Rheoliadau Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992 (Dirymu) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992 (O.S. 1992/460), sy'n ei gwneud yn drosedd, yn ddarostyngedig i eithriadau amrywiol, i wneud y canlynol—

- — gwerthu neu gyflenwi cit neu gydran profi am HIV i aelod o'r cyhoedd;
- — gwerthu neu gyflenwi cit profi am HIV heb hysbysiad rhybudd cysylltiedig; a
- — darparu gwasanaethau profi am HIV nas cyfarwyddir gan ymarferydd meddygol cofrestredig.

Yn ogystal, mae Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992 yn gosod cyfyngiadau ar hysbysebion am gitiau, cydrannau a gwasanaethau o'r fath.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Tîm Nawdd, Sgrinio a Chlefydau Trosglwyddadwy, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 256 (Cy. 34)

# IECHYD Y CYHOEDD

## Rheoliadau Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992 (Dirymu) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Chwefror 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *11 Chwefror 2014* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 23(1) i (3) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, rhychwantu a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992 (Dirymu) (Cymru) 2014.

**2.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2014 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992(**3**) wedi eu dirymu o ran Cymru.

*Mark Drakeford*

(**1**) 1988 p.49.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol (sef, o ran Cymru) mewn perthynas ag adran 23 o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, erthygl 2, At. 1 ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).
(**3**) Rheoliadau Citiau a Gwasanaethau Profi am HIV 1992 (O.S. 1992/460).

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

10 Chwefror 2014